Cynghrair Niwrolegol Cymru
Wales Neurological Alliance

# Adroddiad Blynyddol 2019 a Datganiad Ariannol y Grŵp Trawsbleidiol ar gyfer Cyflyrau Niwrolegol

## <u>Nodau ac Amcanion</u>

**Nod**
I wella gwasanaethau i bobl a effeithir gan gyflyrau niwrolegol

**Amcanion**
1. I ymgysylltu a gweithio mewn partneriaeth gyda phobl a effeithir gan gyflyrau niwrolegol
2. I gynyddu ymwybyddiaeth o gyflyrau niwrolegol a'u heffaith ar unigolion a'u cymunedau
3. I hysbysu a dylanwadu ar Lywodraeth Cymru am anghenion pobl a effeithir gan gyflyrau niwrolegol
4. I gefnogi a hyrwyddo ymchwil priodol

## <u>Aelodaeth a Chyfarfodydd y grŵp:</u>

Bydd y grŵp yn cynnwys Aelodau Cynulliad o o leiaf tair o'r pleidiau gwleidyddol a gynrychiolir yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru a chynrychiolwyr o Bwyllgor Gweithredol Cynghrair Niwrolegol Cymru. Mae cyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd, ond caiff gwahoddiadau penodol eu hanfon at y sefydliadau sydd yn aelodau o Gynghrair Niwrolegol Cymru neu eraill, a ddewisir i'w gwahodd yn benodol gan y cadeirydd a'r ysgrifennydd, sydd â diddordeb mewn cyflyrau niwrolegol.

Aelodau'r grŵp yn y pumed Cynulliad adeg y cyfarfod cychwynnol yw:

Mark Isherwood AC, Ceidwadwyr Cymru (Cadeirydd)
Dr. Dai Lloyd AC, Plaid Cymru
Vikki Howells AC, Llafur Cymru
Lee Walkers AC, Llafur Cymru
Huw Irranca-Davies AC, Llafur Cymru
Angela Burns AC, Ceidwadwyr Cymru
David Rees AC 14, Llafur Cymru

Lynne Hughes, MS Society
Ana Palazon, Parkinson's UK
Dave Maggs, Headway
David Murray, Cure Parkinson's
Kevin Thomas, MND Association

Ann Sivapatham, Epilepsy Action
Carol McCudden, Ataxia UK
Kate Steele, Shine UK

Mae cyfarfodydd Grŵp Trawsbleidiol Cyfarfodydd Niwrolegol yn agored i'r cyhoedd a chaiff y gwahoddiadau eu hanfon at sefydliadau sydd yn aelodau o'r WNA ac eraill sydd â diddordeb mewn cyflyrau niwrolegol.

**Lobïwyr proffesiynol, sefydliadau gwirfoddol ac elusennau y mae'r Grŵp wedi cyfarfod â nhw yn ystod y flwyddyn flaenorol**

Nid oedd y grŵp yn cwrdd ag unrhyw lobïwyr proffesiynol. Mae manylion y sefydliadau gwirfoddol ac elusennol sydd yn mynychu cyfarfodydd ar gael yn adran 'Aelodaeth a Chyfarfodydd y grŵp' yr adroddiad.

**Cyfarfodydd**

Penderfynodd y Grŵp Trawsbleidiol ar Gyflyrau Niwrolegol mai ei ffocws ar gyfer 2019 oedd mynd i'r afael ag archwiliad i'r cynnydd hyd yn hyn ar weithredu Cynllun Cyflenwi Niwrolegol Llywodraeth Cymru.

Cylch gorchwyl yr archwiliad oedd edrych ar y cynnydd a wnaed o ran gweithredu'r Cynllun Cyflenwi Niwrolegol yng Nghymru, gan gynnwys:

- Edrych ar y cynnydd a wnaed o ran gweithredu'r cynllun ar draws pob un o'r byrddau iechyd lleol.
- Pa un a yw Cymru ar y trywydd iawn er mwyn cyrraedd y deilliannau a mesurau perfformiad a amlinellir ym mhob pennod o'r Cynllun Gweithredu, erbyn 2020.
- Pa un a yw cleifion ar hyd a lled Cymru yn gallu cael mynediad i'r gofal sydd angen (er enghraifft diagnosis prydlon, mynediad i ddiagnosteg a thriniaeth, a gofal lliniarol a diwedd oes) mewn cyd-destun priodol ac o fewn amser rhesymol
- Y lefel o weithio cydweithredol ar draws sectorau, yn enwedig rhwng y GIG a'r trydydd sector, er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael gofal effeithiol sy'n canolbwyntio ar unigolion gan dîmau aml-ddisgyblaethol.
- Pa un a yw'r lefel bresennol o gyllido ar gyfer gwasanaethau niwrolegol yn briodol, yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol ac yn darparu gwerth arian.

Cyflwynwyd tystiolaeth ysgrifenedig i'r ymchwiliad gan amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys:

- Unigolion sydd yn byw gyda chyflyrau niwrolegol;
- Elusennau sydd yn cynrychioli pobl a effeithir gan gyflyrau niwrolegol;
- Colegau Brenhinol;
- Cynghrair Niwrolegol Cymru; a
- Grŵp Gweithredu Cyflyrau Niwrolegol.

Cynhaliwyd tair sesiwn dystiolaeth llafar, gyda'r nod o gasglu safbwyntiau a phrofiadau amrywiaeth o randdeiliaid am weithrediad ac effaith y Cynllun Cyflenwi Cyflyrau Niwrolegol. Roedd yn gyfle hefyd i drafod datrysiadau ymarferol ar gyfer gweithredu yn y dyfodol. Gofynnwyd wrth y bobl a fynychwyd am drafod y canlynol:

**Cwestiwn 1:** A ydych yn teimlo bod y Cynllun Cyflenwi Cyflyrau Niwrolegol wedi cyflenwi digon o newid i bobl â chyflyrau niwrolegol yng Nghymru? Allech chi roi enghreifftiau i egluro eich ateb?

**Cwestiwn 2:** Ym mha ffyrdd ydych yn meddwl bod y Cynllun Cyflenwi Cyflyrau Niwrolegol wedi bod fwyaf llwyddiannus? Allech chi roi unrhyw enghreifftiau?

**Cwestiwn 3:** Ym mha ffyrdd ydych yn meddwl bod y Cynllun Cyflenwi Cyflyrau Niwrolegol wedi bod yn llai llwyddiannus? Allech chi roi unrhyw engrheifftiau?

**Cwestiwn 4:** Oes gennych unrhyw awgrymiadau am weithredu yn y dyfodol er mwyn gwella triniaethau, gwasanaethau a chymorth i bobl â chyflyrau niwrolegol yng Nghymru?

**Cwestiwn 5:** Oes gennych unrhyw sylwadau ar y lefel bresennol o gyllido ar gyfer gwasanaethau niwrolegol yng Nghymru? Beth yw eich safbwyntiau ar ba un a yw'r cyllido ar gyfer gwasanaethau niwrolegol yn cael ei ddefnyddio yn effeithiol ac yn sicrhau gwerth am arian?

**Cwestiwn 6:** Oes gennych unrhyw sylwadau ar y ffordd y mae'r GIG yn gweithio gyda sefydliadau eraill, fel elusennau, o ran darparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i bobl â chyflyrau niwrolegol?

Cynhaliwyd y cyfarfodydd ar 4ydd Gorffennaf a 4ydd Hydref, gyda sesiwn arall ar y 14eg Tachwedd er mwyn i aelodau o'r Grŵp Gweithredu Niwrolegol gyflwyno tystiolaeth.

## Datganiad Ariannol

Caiff y costau i gyd eu talu gan Gynghrair Niwrolegol Cymru.

| | **Treuliau Llety ac Arlwyo** |
|---|---|
| Cyfarfod Gogledd Cymru – Llogi ystafell a Lluniaeth | £355 |
| Cyfarfod Caerdydd | £179.94 |
| | |
| | |
| **Cyfanswm** | **£534.94** |